# Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio’r system Nodyn Ailgylchu Gwastraff Pecynwaith (PRN)

Mawrth 2026

Rydyn ni'n gyfrifol am wella a gwarchod yr amgylchedd. Ein nod yw tyfu economi werdd a chynnal cymunedau gwledig ffyniannus. Rydyn ni hefyd yn cefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota sydd gyda'r gorau yn y byd.

Adran weinidogol yw Defra, a gefnogir gan 34 o asiantaethau a chyrff cyhoeddus.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/defra

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn packaging@defra.gov.uk.

# Cynnwys


Department for Environment, Food & Rural Affairs ........ 1

Ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system Nodyn Ailgylchu Gwastraff Pecynwaith (PRN) ........ 1

1. Crynodeb Gweithredol ........ 4

1.1 Rhagarweiniad ........ 4

1.2 Diwygiadau Diweddar ........ 5

1.3 Yr Achos dros Ddiwygio ........ 5

1.4 Crynodeb o'r Cynigion a'r Manteision ........ 7

2. Cyflwyniad ........ 8

2.1 Pwrpas yr Ymgynghoriad ........ 8

2.2 Hyd a Lled Daearyddol ........ 10

2.3 Cynulleidfa ........ 10

2.4 Ymateb i'r Ymgynghoriad ........ 11

2.5 Cyfnod Ymgynghori ........ 12

2.6 Ar ôl yr Ymgynghoriad ........ 12

2.7 Cydymffurfio ag Egwyddorion yr Ymgynghoriad ........ 13

2.8 Amdanoch Chi ........ 13

3. Diwygiadau Arfaethedig ........ 14

3.1 Sicrhau Chwarae Teg ........ 14

3.2 Canslo PRNs - Mwy o Ddiwydrwydd Dyladwy dan Arweiniad y Sector ........ 17

3.3 Mecanweithiau Cydymffurfio ........ 20

3.4 Tryloywder ..... 23
4. Ymgynghori yn y Dyfodol ar Ddiwygio ..... 27
4.1 Opsiynau Posib a Chynigion ar gyfer Ymgynghori Pellach ..... 27
5. Atodiad A – Sefydliadau oedd wedi ymwneud â'r Grŵp Sbrint ..... 28

# 1. Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Rhagarweiniad

1.1.1 Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) 2024 (y "Rheoliadau") yn mynnu bod cynhyrchwyr yn ailgylchu hyn a hyn o wastraff pecynwaith bob blwyddyn ar sail faint o becynwaith (mewn tunelli) maen nhw'n ei gyflenwi. Y 'rhwymedigaeth ailgylchu' yw enw hyn.

1.1.2 Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol, rhaid i gynhyrchwyr gael tystiolaeth o ailgylchu ar ffurf Nodiadau Ailgylchu Gwastraff Pecynwaith (PRNs) a Nodiadau Ailgylchu Allforio Gwastraff Pecynwaith (PERNs) gan ail-broseswyr ac allforwyr sydd wedi cael eu hachredu gan y rheoleiddiwr perthnasol i gyhoeddi'r dystiolaeth honno. Wrth wneud hynny, mae gwerthu PRN/PERNs yn darparu refeniw ychwanegol i'r sector ailgylchu. Gall hyn helpu i hwyluso buddsoddiad mewn seilwaith presennol a newydd, gyda dros £92 miliwn yn 2024 yn cefnogi gwelliannau i seilwaith a chapasiti yn y dyfodol, gyda dros £60 miliwn ohono'n cael ei fuddsoddi gan ail-broseswyr domestig.[1] Mae amodau'r farchnad a chapasiti seilwaith yn dylanwadu ar brisiau PRN/PERN.

1.1.3 Mae'r system PRN wedi cyflawni ei hamcan craidd o gynyddu cyfraddau ailgylchu a chyrraedd targedau ailgylchu, yn ôl ystadegau'r DU ar wastraff, sydd ar gael drwy'r ddolen yma: Ystadegau'r DU ar wastraff - GOV.UK. Fodd bynnag, mae busnesau a rheoleiddwyr yn dymuno gweld diwygiadau er mwyn lleihau pa mor agored yw'r system i dwyll, a sicrhau tegwch i ail-broseswyr domestig yn y DU.

[1] Gwariwyd cyfanswm o £60.2m gan ail-broseswyr domestig yn 2024 ar wella seilwaith a chapasiti yn y dyfodol (Data Refeniw PRN/PERN y Gronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Gwastraff Pecynwaith (NPWD)). Efallai fod y nifer hwn fod yn uwch o ystyried na ellir rhannu'r sectorau pren a gwydr (heb fod yn ail-doddi) (sy'n cyfrif am gyfanswm pellach o £10.8m) yn ailbrosesu domestig ac allforio. Bydd rhyddhau'r data hwn yn torri Rheoliad EIR 12(5)(e) - cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd o'r fath gan y gyfraith i ddiogelu buddiant economaidd dilys.

## 1.2 Diwygiadau Diweddar

1.2.1 Yn dilyn ymgyngoriadau yn 2021 a 2022, cyflwynwyd diwygiadau o 1 Ionawr 2026 ymlaen, gan gynnwys:

1.2.2 Prawf person cymwys a phriodol newydd i sicrhau bod rheoleiddwyr yn gallu ystyried hanes blaenorol ehangach, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol unrhyw ail-broseswyr/allforwyr wrth asesu eu cais am achrediad.

1.2.3 Ffioedd rheoleiddio uwch i sicrhau bod gan reoleiddwyr ddigon o adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau ychwanegol, a chynnwys cymal chwyddiant i sicrhau bod modd cynnal adnoddau.

1.2.4 Gofynion adrodd amlach a mwy manwl ar ail-broseswyr/allforwyr sy’n ymwneud â chyflenwad, pris a gwariant refeniw PRN/PERN. Dylai hyn helpu i leihau anwadalrwydd prisiau drwy gynyddu tryloywder y farchnad. Mae hyn yn ategu newidiadau i ofynion adrodd cynhyrchwyr a ddylai roi darlun cliriach i ail-broseswyr/allforwyr o’r galw am PRNs/PERNs, gan eu helpu i gynllunio a buddsoddi’n well.

1.2.5 Darpariaethau newydd sy’n ymwneud â ‘chyfran ailgylchadwy’ gwastraff. Rydyn ni wedi dod yn ymwybodol bod gwahanol ddehongliadau o’r gofynion newydd. Mae Adran 3.1 yn nodi sut rydyn ni’n bwriadu datrys hyn.

1.2.6 Bydd y mesurau hyn yn sicrhau cynnydd pwysig, ond rydyn ni’n cydnabod bod mwy i’w wneud. Felly, rydyn ni’n ymgynghori ar becyn arall o fesurau sydd wedi cael eu dylunio ar y cyd ag arbenigwyr yn y diwydiant ac rydyn ni’n bwriadu cynnal ymgynghoriad arall a fydd yn gofyn am safbwyntiau ar ddiwygiadau ehangach posib i’r system PRN/PERN.

## 1.3 Yr Achos dros Ddiwygio

1.3.1 Yn 2021, roedd ailgylchu’n werth dros £7 biliwn[2] ac roedd y sector ailbrosesu domestig yn cyflogi tua 21,200 o bobl[3]. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch ymarferoldeb rhai gweithrediadau. Mae’r pryderon hyn yn cael eu sbarduno gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys effaith prisiau olew byd-eang ac ansefydlogrwydd costau ynni. Er bod rhywfaint o fuddsoddiad cadarnhaol yn digwydd, mae’n debygol y bydd bwlch parhaus o ran capasiti heb gymryd camau pellach[4]. Dylai diwygiadau

---

[2] https://esauk.org/wp-content/uploads/2024/06/24800_Tolvik-document_summary_June2024.pdf

[3] Amcangyfrifon blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o weithwyr a chyflogaeth ar gyfer Prydain Fawr a’r DU wedi’u rhannu yn ôl Dosbarthiad Diwydiannol Safonol dau, tri a phum digid: SIC 2007. Defnyddiwyd codau SIC 38.310 (Datgymalu Dinistr) a 38.320 (Adennill deunyddiau wedi’u didoli) i gwmpasu’r sector ailbrosesu domestig yn y DU.

[4] Dadansoddi Capasiti Seilwaith Ailgylchu | WRAP - Rhaglen Weithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau - Mae’r adroddiad hwn yn rhagweld bwlch capasiti o 324kt/pa o seilwaith ailbrosesu pecynwaith plastig yn 2035, pe bai allforion yn aros yr un fath. Nid yw’n rhoi cyfrif am newidiadau diweddar i gapasiti ailbrosesu domestig.

allweddol, fel Ailgylchu Symlach a'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd, helpu i gynyddu'r cyflenwad o borthiant o ansawdd uchel ar gyfer ailbrosesu. Gallai diwygio PRN/PERN ddarparu rhagor o gymorth drwy sicrhau tegwch rhwng ail-broseswyr domestig ac allforwyr.

1.3.2 Mae adborth gan y diwydiant yn dangos bod twyll a gwallau yn y system PRN yn cyfrannu at yr heriau sy'n wynebu'r sector. Mae PRNs/PERNs twyllodrus yn arwain at orgyflenwad o dystiolaeth o ailgylchu, gan ostwng prisiau PRN/PERN. Mae hyn yn lleihau refeniw gweithredwyr cyfreithlon a'r cymhellion i fuddsoddi.

1.3.3 Mae canlyniadau twyll yn y system yn ymestyn y tu hwnt i effeithiau economaidd. Mae ymchwiliadau gan elusennau amgylcheddol a newyddiadurwyr wedi dangos bod modd camreoli rhywfaint o wastraff pecynwaith y DU sy'n cael ei allforio dramor.[5] Mae perygl i hyn achosi difrod amgylcheddol a niwed i bobl, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y sector gwastraff. Er enghraifft, gall rheoli gwastraff yn wael arwain at ddirywiad amgylcheddol, gan gynnwys drwy ryddhau llygryddion fel microblastigau i amgylcheddau daearol a dyfrol, gyda'r effaith fwyaf difrifol yn digwydd yn aml mewn gwledydd sydd â dulliau rheoleiddio gwahanol i'r DU. Mae hyn yn mynd yn groes i ymrwymiad y pedair gwlad i gyflawni camau gweithredu uchelgeisiol a chydlynol sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng planedol triphlyg o lygredd, colli bioamrywiaeth a'r newid yn yr hinsawdd.

1.3.4 Er na all diwygio PRN/PERN fynd i'r afael â'r holl broblemau hyn, gall wneud cyfraniad pwysig drwy sicrhau bod ailbrosesu domestig yn cael ei gefnogi drwy'r system. Yn benodol, gall helpu i wneud y canlynol:

i. Cynyddu gwydnwch system rheoli gwastraff y DU o ran tarfu ar allforion. Er enghraifft, pan waharddodd Tsieina fewnforion gwastraff pecynwaith yn 2017, doedd gan lawer o allforwyr y DU ddim marchnad ar gyfer eu gwastraff am nifer o fisoedd, gan greu problemau ym mhorthladdoedd y DU ac effeithio ar brisiau deunyddiau wedi'u hailgylchu. Bwriad diwygio PRN/PERN yw cryfhau a hyrwyddo gweithgarwch ailgylchu yn y DU drwy sicrhau tegwch i ail-broseswyr domestig, a drwy hynny, leihau'r ddibyniaeth ar allforion.
ii. Datgloi buddsoddiad, creu swyddi, a chyfrannu at dwf economaidd ar yr un pryd â diogelu iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, yn y DU a thramor.
iii. Gwella mynediad at ddeunydd wedi'i ailgylchu (hy cynyddu diogeledd deunyddiau) ac, at ddibenion y Dreth Pecynnau Plastig, cadarnhau hawliadau cynnwys wedi'i ailgylchu. Byddai hyn yn darparu deunyddiau wedi'u hailgylchu o ansawdd uwch i'w defnyddio mewn cynnyrch plastig newydd, gan gynnwys defnyddiau sy'n sensitif i gyswllt fel bwyd, meddyginiaeth a phecynwaith colur.

---

[5] Why is UK recycling being dumped by Turkish roadsides? - BBC News
Malaysia returns 42 containers of 'illegal' plastic waste to UK - BBC News

## 1.4 Crynodeb o’r Cynigion a’r Manteision

1.4.1 Ers haf 2025, mae’r pedair gwlad wedi gweithio’n ddwys gyda busnesau perthnasol i nodi a blaenoriaethu mesurau i fynd i’r afael â thwyll, sicrhau tegwch a gwneud yn siŵr bod y DU yn cymryd mwy o gyfrifoldeb dros y gwastraff pecynwaith rydyn ni’n ei gynhyrchu (gweler Atodiad A am restr o’r rhai sydd wedi bod yn rhan o’r gwaith hyd yma). Rydyn ni wedi clywed gan ffynonellau yn y diwydiant bod yr achos dros ddiwygio ar ei fwyaf ar gyfer plastig a gwydr o ystyried yr heriau sy’n gysylltiedig ag ailbrosesu’r deunyddiau hyn, y lefelau o dwyll sy’n cael eu hamau, pwysigrwydd sicrhau tegwch rhwng ail-broseswyr domestig ac allforwyr, a’r angen i fynd i’r afael â’r gostyngiad yn argaeledd deunyddiau ar gyfer ail-broseswyr domestig. Mae’r achos dros ddiwygiadau penodol perthnasol yn y marchnadoedd papur a cherdyn, alwminiwm, dur a phren yn ymddangos yn is, er bod diddordeb o hyd mewn mesurau i leihau’r risg o dwyll. Mae’r cynigion yn y papur ymgynghori hwn yn adlewyrchu’r adborth hwn.

1.4.2 **Mesurau rydyn ni’n bwriadu eu datblygu:**

i. Creu Menter Canfod Twyll sy’n cynnwys rheoleiddwyr, y diwydiant ac arbenigwyr digidol i nodi a gweithredu mesurau i leihau twyll yn y system PRN. Nod y fenter fyddai rhoi hwb i hyder buddsoddwyr yn y diwydiannau yr effeithir arnynt.

ii. Gweithio gyda’r sector i adolygu’r gwaith o gasglu a rhannu data mwy cyfunol ar lefel system. Nod hyn yw gwella gweithrediad y farchnad i leihau anwadalrwydd a hefyd dangos tystiolaeth i holl gyfranogwyr y farchnad PRN bod y system yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol.

iii. Gwella cydweithrediad o ran cydymffurfio a thwyll ar draws y pedwar rheoleiddiwr i atal gweithredwyr twyllodrus rhag ceisio achrediad mewn awdurdodaethau eraill o’u prif bwynt busnes i rwystro goruchwyliaeth. Bydd hyn yn rhedeg ochr yn ochr â’r Fenter Canfod Twyll a’r nod fydd nodi gwelliannau deddfwriaethol, digidol a gweithdrefnol a all helpu i liniaru’r risg hon.

1.4.3 Mesurau rydyn ni’n bwriadu eu datblygu cyn gynted â phosibl, yn amodol ar ymgynghoriad:

Mae’r mesurau hyn yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â thwyll a gwallau yn y sector. Maen nhw hefyd yn gwella gallu’r system i wrthsefyll siociau allanol (fel amodau economaidd sy’n effeithio ar y galw am ddeunyddiau) ac yn helpu i gyrraedd targedau ailgylchu uwch ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau (fel ffilmiau plastig, ffoil a phecynwaith ffeibr). Os byddant yn cael eu mabwysiadu ar ôl ymgynghori, byddem yn ceisio eu rhoi ar waith ar frys.

i. **Darparu rhagor o arweiniad ar weithredu’r Rheoliadau i sicrhau bod yr holl weithredwyr achrededig yn cyhoeddi tystiolaeth ar sail cynnwys y deunydd pecynwaith y gellir ei ailgylchu ar ôl didoli a glanhau.** Bydd hyn yn golygu bod modd defnyddio termau fel ‘cyfran ailgylchadwy’, ‘wedi’i dderbyn ar gyfer ailgylchu’

ac ‘allforio ar gyfer ailgylchu’ yn gyson, ac yn ei dro bydd yn helpu i fynd i’r afael â beirniadaeth flaenllaw, sef bod allforwyr yn cael mantais annheg.

ii. **Gosod terfyn amser ar ddefnyddio protocolau cenedlaethol a Graddau’r Diwydiant y Cytunwyd Arnynt gan yr Asiantaethau (AAIGs).** Protocolau cenedlaethol a’r AAIGs sy’n pennu faint o becynwaith, fel canran, y gellir ei hawlio gan ddefnyddio PRN/PERN. Bydd gosod terfyn amser ar y protocolau cenedlaethol a’r AAIGs a ddefnyddir yn sicrhau bod y dystiolaeth sy’n sail iddynt yn parhau i fod yn gyfredol o ystyried newidiadau yn nyluniad cynhyrchwyr a phatrymau defnyddio.

iii. Canslo PRNs a PERNs wedi’u cyhoeddi’n anghyfreithlon i gymell cynlluniau cydymffurfio a chyfarwyddo cofrestreion i gynnal mwy o ddiwydrwydd dyladwy ar y dystiolaeth maen nhw’n ei chael.

iv. Cyflwyno Mecanwaith Eithriadol ar gyfer Cydymffurfio i ddarparu ffordd gyfreithiol i gynlluniau cydymffurfio a chynhyrchwyr gydymffurfio pan fydd prinder gwirioneddol o dystiolaeth yn y system.

v. Gwella tryloywder data i helpu i alluogi cynlluniau cydymffurfio a chyfarwyddo cofrestreion i gynnal mwy o ddiwydrwydd dyladwy.

1.4.4 Rydyn ni hefyd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad pellach (gweler adran 4) ynghylch newidiadau posib i’r Rheoliadau yn y dyfodol o ran y rhwymedigaeth ailgylchu a’r system ehangach, gan gynnwys gofyn am farn ar newidiadau ehangach i’r system PRN. Bydd hyn yn sail i bolisi yn y dyfodol, gan wahodd safbwyntiau ar ffyrdd symlach posib o gyflawni ein hamcanion.

1.4.5 Mae’r rhain hefyd yn cynnwys cyflwyno safonau didoli gofynnol ar gyfer cynhyrchu tystiolaeth a thargedau penodol i ddeunyddiau ar gyfer ailgylchu yn y DU.

# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Pwrpas yr Ymgynghoriad

2.1.1 Yn dilyn ymgyngoriadau yn 2021 a 2022, cyflwynwyd diwygiadau o 1 Ionawr 2026 ymlaen, gan gynnwys:

i. Prawf person cymwys a phriodol newydd i sicrhau bod rheoleiddwyr yn gallu ystyried hanes blaenorol ehangach, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol unrhyw ail-broseswyr/allforwyr wrth asesu eu cais am achrediad.

ii. Ffioedd rheoleiddio uwch i sicrhau bod gan reoleiddwyr ddigon o adnoddau i gyflawni eu dyletswyddau ychwanegol, a chynnwys cymal chwyddiant i sicrhau bod modd cynnal adnoddau.

iii. Gofynion adrodd amlach a mwy manwl ar ail-broseswyr/allforwyr sy’n ymwneud â chyflenwad, pris a gwariant refeniw PRN/PERN. Dylai hyn helpu i leihau anwadalrwydd prisiau drwy gynyddu tryloywder wrth gyflenwi tystiolaeth. Mae hyn yn ategu newidiadau i ofynion adrodd cynhyrchwyr a ddylai roi mwy o eglurder i ail-

broseswyr/allforwyr o’r galw am PRNs/PERNs, gan eu helpu i gynllunio a buddsoddi’n well.

iv. **Darpariaethau newydd sy’n ymwneud â ‘chyfran ailgylchadwy’ gwastraff.** Rydyn ni wedi dod yn ymwybodol bod gwahanol ddehongliadau o’r gofynion newydd. Mae Adran 3.1 yn nodi sut rydyn ni’n bwriadu datrys hyn.

2.1.2 Wrth ymateb i’r ymgynghoriad hwn, dylech fod yn ymwybodol o’r pecyn ehangach o ddiwygiadau y mae’r pedair gwlad yn eu datblygu sy’n helpu i fynd i’r afael â phryderon y sector. O’u cyfuno â diwygio PRN, mae’r mesurau ehangach hyn yn cynrychioli strategaeth gyfannol i gryfhau ailgylchu domestig, lleihau twyll, a chefnogi’r newid i economi gylchol yn y DU. Maen nhw’n anelu nid yn unig at sefydlogi’r sector ond hefyd at ddatgloi buddsoddiad, creu swyddi, a sicrhau bod gwastraff pecynwaith yn cael ei reoli’n gyfrifol. Mae’r prif fesurau yn cynnwys:

i. Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith (pEPR), sy’n symud cost rheoli gwastraff pecynwaith i gynhyrchwyr, gan eu cymell i leihau pecynwaith a mabwysiadu dyluniad mwy cynaliadwy ar gyfer pecynwaith. Mae pEPR hefyd yn ariannu ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus ac yn annog awdurdodau lleol i wella systemau casglu a didoli, gan leihau halogiad a chostau gweithredol ar gyfer ail-broseswyr domestig. Yn gyffredinol, mae hyn yn cynyddu lefelau ac ansawdd y deunydd sydd ar gael ar gyfer ailgylchu domestig.

ii. Cyflwynwyd y Dreth Pecynnau Plastig (PPT) yn 2022 i roi hwb i’r galw am blastig wedi’i ailgylchu a lleihau’r ddibyniaeth ar ddeunyddiau crai. Cyhoeddodd Cyllid a Thollau EF a Thrysorlys EF ddiwygiadau i’r dreth yng Nghyllideb 2025 i gefnogi uchelgeisiau’r economi gylchol ymhellach, a byddant yn ymgynghori ar ragor o fesurau ddechrau 2026. Cadarnhawyd hefyd y bydd cyfradd y dreth yn cynyddu yn unol â chwyddiant CPI.

iii. Diwygiadau i brosesau casglu ac ailgylchu pecynwaith ym mhob un o’r pedair gwlad. Er mwyn helpu i alluogi’r DU i weithredu’r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith ar y cyd, mae gan y pedair gwlad bolisi a bwriad cyflawni ar y cyd i helpu awdurdodau lleol a chwmnïau rheoli gwastraff i gasglu ac ailgylchu set graidd o ddeunyddiau pecynwaith. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i aelwydydd a busnesau ailgylchu pecynwaith, gan gasglu deunyddiau o ansawdd uwch a chynhyrchu mwy o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd ar gael i ail-broseswyr. Mae fframweithiau polisi ailgylchu domestig sy’n bodoli eisoes ac sy’n datblygu ym mhob gwlad yn cefnogi’r uchelgais gyffredin hon.

iv. Tracio Gwastraff Digidol (DWT) a fydd yn cefnogi gallu rheoleiddwyr i ganfod ac erlyn troseddau a thwyll gwastraff, gan gynnwys materion sy’n ymwneud ag allforio gwastraff pecynwaith a PRN/PERNs.

v. Cynlluniau Dychwelyd Ernes (DRSs) ar gyfer cynwysyddion diodydd, sy’n cael eu cyflwyno ym mhob un o’r pedair gwlad fis Hydref 2027. Bydd DRS yn gymhelliant ariannol i ddefnyddwyr ddychwelyd cynwysyddion diodydd sydd o fewn y cwmpas i fannau casglu dynodedig. Bydd hyn yn cynyddu lefelau ac ansawdd deunydd i’w

ailgylchu yn sylweddol, gan ddarparu sicrwydd o borthiant domestig ar gyfer ail-broseswyr. Ni fydd y deunydd sy'n cael ei gasglu drwy DRS yn ddarostyngedig i PRNs.

vi. Drwy gynllun y Cytundeb Newid Hinsawdd (CCAs), mae gweithredwyr ailbrosesu plastigau yn gymwys i gael disgownt o hyd at 92% ar yr Ardoll Newid Hinsawdd (CCL), treth sy'n cael ei hychwanegu at filiau trydan a thanwydd, gan helpu i leihau eu costau gweithredol. Yn amodol ar basio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol, bydd y prosesau cymwys yn ehangu i gynnwys ailgylchu plastigau'n fecanyddol o 1 Ionawr 2027 ymlaen.  Mae'r disgownt ar gael i'r diwydiant yn wirfoddol drwy ymrwymo i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon deuocsid (CO2).

## 2.2 Hyd a Lled Daearyddol

2.2.1 Mae polisi gwastraff yn fater datganoledig. Mae'r pedair llywodraeth wedi cytuno i barhau â dull gweithredu y DU gyfan ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros Becynwaith, sy'n cynnwys y system PRN/PERN. Yn unol â hynny, yn yr un modd â'r ymgyngoriadau blaenorol, mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at 'y llywodraeth' yn gyfeiriadau at Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.

2.2.2 Mae'r ddogfen hon a disgrifiadau o'r gyfraith bresennol yn ymwneud â Chymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2.2.3 Mae cyfeiriadau at Weinidogion yn gyfeiriadau at Weinidogion o bob llywodraeth. Mae cyfeiriadau at 'y rheoleiddiwr' neu at 'reoleiddwyr' yn gyfeiriadau at Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) ac Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA), oni nodir yn wahanol.

2.2.4. Mae'r cyfeiriad at "awdurdodau lleol" yn cynnwys cynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.

## 2.3 Cynulleidfa

2.3.1 Croesewir ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan y canlynol:

i. Busnesau sy'n ymwneud â dylunio, cynhyrchu a manylebau pecynwaith
ii. Busnesau sy'n gweithgynhyrchu cynnyrch ac yn rhoi'r cynnyrch hwn mewn pecynwaith, neu sy'n rhoi cynnyrch mewn pecynwaith ar eu rhan, ac sy'n rhoi'r cynnyrch hwn ar y farchnad yn y DU
iii. Manwerthwyr, marchnadoedd ar-lein a mewnforwyr cynnyrch wedi'i becynnu
iv. Cynlluniau cydymffurfedd pecynwaith

v. Sefydliadau sy’n ymwneud â rheoli ac ailgylchu gwastraff pecynwaith gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau rheoli gwastraff, broceriaid, allforwyr ac ail-broseswyr
vi. Sefydliadau eraill fel sefydliadau proffesiynol ac aelodaeth, cyrff anllywodraethol, ymgynghorwyr a sefydliadau elusennol sydd â diddordeb mewn pecynwaith a sut mae gwastraff pecynwaith yn cael ei reoli yn y DU
vii. Y cyhoedd

## 2.4 Ymateb i’r Ymgynghoriad

2.4.1 Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth

Mae sut rydyn ni’n defnyddio eich data personol wedi’i nodi yn yr ymgynghoriad ac yn hysbysiad preifatrwydd yr ymarfer galw am dystiolaeth, sydd ar gael yma: Ymgyngoriadau ac ymarferion galw am dystiolaeth Defra: hysbysiad preifatrwydd - GOV.UK
*Mae’n bosibl y caiff eich ymatebion eu prosesu gan ddeallusrwydd artiffisial i ddadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad hwn a’r galwad am dystiolaeth yn fwy effeithlon. Mae’r offer hyn yn helpu i adnabod ac i fapio themâu a chrynhoi ymatebion, ond ni fyddant yn gwneud penderfyniadau a bydd yr holl allbynnau’n cael eu hadolygu gan staff i sicrhau eu bod yn gywir ac yn ddibynadwy.*

2.4.2 Gallwch ymateb i’r ymgynghoriad hwn drwy’r dulliau canlynol:

Ar-lein, gan ddefnyddio’r hyb ymgynghori yn adran i ddinasyddion Defra: https://consult.defra.gov.uk/.

2.4.3 Er hwylustod dadansoddi, byddai ymatebion drwy lwyfan Citizen Space yn cael eu ffafrio, ond mae dewisiadau eraill isod os oes angen:

i. Ar e-bost i packaging@defra.gov.uk
ii. Yn ysgrifenedig:

Plastic & Packaging Team

Circular Economy Directorate

Department for Environment, Food and Rural Affairs,

Ground Floor, Seacole Block,

2 Marsham Street,

London, SW1P 4DF

2.4.4 Defra sy’n rheoli’r broses ymgynghori ar ran llywodraethau’r DU, Cymru a’r Alban, a’r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.

2.4.5 Bydd gan lywodraethau Cymru a'r Alban fynediad at yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarperir drwy hyb ymgynghori Citizen Space. Os hoffech chi anfon copi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad at Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth yr Alban, gwnewch hynny ar e-bost:

i. Yr Alban: producerresponsibility@gov.scot
ii. Cymru: WelshGovernmentEPRProgramme@gov.wales
iii. Os ydych chi'n ymateb o Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr bod copi o'ch ymateb hefyd yn cael ei anfon i EPRTeam@daera-ni.gov.uk

## 2.5 Cyfnod Ymgynghori

2.5.1 Bydd yr ymgynghoriad ar agor am 6 wythnos. Agorodd yr ymgynghoriad ar 24.03.26 a daw i ben ar 05.05.26

## 2.6 Ar ôl yr Ymgynghoriad

2.6.1 Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ac ymateb y pedair gwlad yn cael eu cyhoeddi a'u rhoi ar wefannau'r llywodraeth yn www.llyw.cymru, www.gov.uk/defra, www.gov.scot a www.daera-ni.gov.uk.

2.6.2 Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o ymatebwyr a sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill. Fodd bynnag, gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei rhyddhau i bartïon eraill neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth fel Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018.

2.6.3 Os ydych yn dymuno i wybodaeth, gan gynnwys data personol a ddarperir gennych, gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad ac esboniwch pam mae angen cadw'r manylion hyn yn gyfrinachol.

2.6.4 Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn gais i gadw cyfrinachedd ynddo'i hun.

2.6.5 Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol rydych chi'n ei ddarparu ac mae Siarter Gwybodaeth Bersonol Defra, sy'n rhoi manylion eich hawliau o ran trin eich data personol, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-environment-food-rural-affairs/about/personal-information-charter

## 2.7 Cydymffurfio ag Egwyddorion yr Ymgynghoriad

2.7.1 Mae’r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag “Egwyddorion Ymgynghori” Swyddfa’r Cabinet, sydd ar gael yn: Egwyddorion Ymgynghori.

2.7.2 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, anfonwch nhw mewn neges e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk

## 2.8 Amdanoch Chi

2.8.1 Mae amrywiaeth eang o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn ymwneud â phecynwaith neu’n cymryd diddordeb mewn pecynwaith. Bwriad y cwestiynau isod yw deall yr amrywiaeth hon a rhoi eich ymatebion mewn persbectif â rhai ymatebwyr eraill.

**C1. Ydych chi’n dymuno i’ch ymateb fod yn gyfrinachol?**

a. Ydw
b. Nac ydw

**Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch pam.**

**C2. Eich enw**

**C3. Eich cyfeiriad e-bost**

*Mae hyn yn ddewisol, ond os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost, byddwch yn gallu dychwelyd i olygu eich ymateb i’r ymgynghoriad yn Citizen Space unrhyw bryd nes i chi ei gyflwyno. Byddwch hefyd yn cael e-bost o gydnabyddiaeth pan fyddwch yn cyflwyno ymateb wedi’i gwblhau.*

**C4. a un sy’n eich disgrifio chi orau?**

*(Ticiwch un. Os oes mwy nag un categori’n berthnasol, dewiswch yr un sy’n disgrifio orau’r sefydliad rydych chi’n ei gynrychioli yn eich ymateb.)*

- Ail-brosesydd
- Allforiwr
- Cynllun Cydymffurfedd Pecynwaith
- Corff masnach / corff cynrychioliadol
- Cynhyrchydd Pecynwaith
- Cwmni rheoli gwastraff
- Llywodraeth leol
- Grŵp cymunedol
- Corff anllywodraethol
- Elusennau neu fenter gymdeithasol

- Ymgynghoriaeth
- Academydd neu ymchwilydd
- Unigolyn
- Arall

**Os mai ‘Ail-brosesydd’, ‘Allforiwr’ neu ‘Corff masnach/corff cynrychioliadol’ oedd eich ateb, nodwch pa ddeunydd(iau):**

**Os mai ‘Arall’ oedd eich ateb, rhowch fanylion:**

**C.5 Rhowch enw’r sefydliad/busnes rydych chi’n ei gynrychioli:**

**C.6 Rhowch amcangyfrif o faint/nifer y staff (lle bo hynny’n berthnasol):**

**C7. Bydd angen i’r Llywodraeth ddeall anghenion defnyddwyr i adeiladu gwasanaethau digidol ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Ydych chi’n dymuno i’ch manylion cyswllt gael eu hychwanegu at banel defnyddwyr ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr er mwyn i ni allu eich gwahodd i gymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr (er enghraifft arolygon, gweithdai a chyfweliadau) neu i brofi gwasanaethau digidol wrth iddynt gael eu dylunio a’u hadeiladu?**

*Gallwch ddarllen Hysbysiad Preifatrwydd sy’n egluro sut mae eich gwybodaeth yn cael ei diogelu mewn perthynas ag ymchwil defnyddwyr, beth fyddwn yn ei wneud a beth na fyddwn yn ei wneud â’r wybodaeth, am ba hyd y bydd yn cael ei chadw a sut i optio allan o ymchwil defnyddwyr os byddwch yn newid eich meddwl.*

a. Ydw
b. Nac ydw

# 3. Diwygiadau Arfaethedig

Mae’r adran hon yn rhoi manylion y cynigion a nodir yn 2.1 ynghylch sut y bwriedir i’r egwyddorion allweddol weithredu, ac yn nodi’r cwestiynau allweddol i randdeiliaid.

## 3.1 Sicrhau Chwarae Teg

3.1.1 Mae rhanddeiliaid yn y diwydiant wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau tegwch rhwng ail-broseswyr domestig ac allforwyr er mwyn sicrhau cydraddoldeb o ran y gwastraff pecynwaith y mae PRNs a PERNs yn cael eu hawlio ar ei gyfer. Mae tri mesur wedi’u cynnig:

1. Egluro’r dehongliad o’r Rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2026
2. Diweddaru a chryfhau gofynion i sicrhau nad yw PERNs yn cael eu cyhoeddi ar wastraff pecynwaith nad yw’n cael ei ailgylchu i’r un safon ag ail-broseswyr domestig

3. Defnyddio safonau didoli gofynnol ar gyfer allforion i fod yn gymwys ar gyfer PERNs neu fabwysiadu targedau ailbrosesu domestig

Mae’r adran hon yn rhoi sylw i’r ddau faes cyntaf. Mae’r trydydd maes yn cael sylw yn adran 4 a bydd yn destun ymgynghoriad ar wahân.

**Dehongli’r Rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2026**

3.1.2 Drwy’r Rheoliadau, ein bwriad oedd sicrhau mai dim ond ar dunelledd y gwastraff pecynwaith cymwys sy’n barod i fynd i mewn i’r broses ailgylchu derfynol (fel ysgyrion gwydr neu naddion plastig) y caiff PRNs/PERNs eu cyhoeddi, p’un a yw’r gwastraff yn cael ei ailbrosesu’n ddomestig neu’n cael ei allforio (y “gyfran ailgylchadwy”). Mae hyn yn dilyn yr holl waith didoli, glanhau a phrosesu i gael gwared ar ddeunydd nad yw’n darged a halogion. Gellir rhoi cyfrif am hyn drwy ddefnyddio protocol neu fethodoleg gymeradwy, ar yr amod bod y protocol neu’r fethodoleg yn adlewyrchu’r prosesu a bod tystiolaeth ddigonol o’r protocol neu’r fethodoleg. Bwriad hyn yw sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chyhoeddi ar yr hyn sy’n mynd i mewn i’r broses ailgylchu derfynol mewn gwirionedd.

3.1.3 Nid yw hyn yn atal ail-broseswyr/allforwyr rhag rhoi tystiolaeth o ailbrosesu pan fydd y pecynwaith gwastraff yn cyrraedd y safle ailbrosesu nac ar ôl cael cadarnhad ei fod wedi cyrraedd cyfleuster tramor.

3.1.4 Rydyn ni’n ymwybodol bod y rhan hon o’r Rheoliadau wedi cael ei dehongli’n wahanol a bod busnesau wedi datblygu cynlluniau’n ddidwyll ar gyfer blwyddyn gydymffurfio 2026. Bydd rheoleiddwyr yn gweithio gyda’r busnesau hyn i’w galluogi i addasu eu prosesau yn ôl yr angen ar gyfer dechrau blwyddyn gydymffurfio 2027.

3.1.5 Er y bydd ail-broseswyr/allforwyr yn dal i allu defnyddio Cynlluniau Samplu ac Archwilio (SIPs) a phrotocolau cenedlaethol i ddarparu tystiolaeth, o 1 Ionawr 2027 ymlaen bydd angen i’r rhain ystyried colledion perthnasol cyn i’r deunydd gyrraedd y cam ailgylchu terfynol. Bydd angen tystiolaeth gadarn o hyn, a allai fod yn fwy heriol ar gyfer gwastraff pecynwaith sy’n cael ei allforio. Os nad yw ail-broseswyr/allforwyr yn gallu dangos tystiolaeth ddigonol o gydymffurfio drwy SIPs, efallai y bydd angen i’r diwydiant ddiweddaru neu ddatblygu protocolau y cytunir arnynt yn genedlaethol ac AAIGs.

**Adolygu a diweddaru Protocolau y Cytunwyd Arnynt yn Genedlaethol ac AAIGs**

3.1.6 Yn ogystal â mesur union dunelledd gwastraff wedi’i ailgylchu a SIPs, o dan y Rheoliadau, mae ail-broseswyr/allforwyr yn gallu defnyddio protocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac AAIGs i sefydlu cyfran ailgylchadwy y gwastraff pecynwaith a dderbynnir i’w ailgylchu (Atodlen 8 (22) 1(b) o’r Rheoliadau). Mae’r rhain yn cael eu datblygu gan y diwydiant, yn cael eu cyflwyno i reoleiddwyr graffu arnynt, ac os pennir eu bod yn ddigon cadarn a chywir, yn cael eu cymeradwyo i’w defnyddio.

3.1.7 Ar hyn o bryd mae nifer o brotocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac AAIGs ar gyfer cyhoeddi PRN/PERN y cytunwyd arnynt gan y Rheoleiddwyr, ac maen nhw ar gael yma: Packaging waste: apply to be an accredited reprocessor or exporter - GOV.UK. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer ac mae'r sector gwastraff yn cwestiynu a ydynt bellach yn cynrychioli'n gywir faint o wastraff pecynwaith sydd yn y ffrwd wastraff (er enghraifft, efallai fod cyfran y pecynwaith mewn papur/cerdyn cymysg wedi cynyddu oherwydd gostyngiad yn y defnydd o bapurau newydd a chylchgronau ffisegol).

3.1.8 Hoffai'r llywodraeth weld ail-broseswyr/allforwyr yn symud at ddefnyddio'r wybodaeth fwyaf cywir sydd ar gael iddynt wrth sefydlu cyfran ailgylchadwy eu pecynwaith. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfraddau ailgylchu'n gywir a bod ail-broseswyr/allforwyr yn cael eu cefnogi'n deg drwy'r system PRN/PERN.

3.1.9 Mae'n bwysig nad yw protocolau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ac AAIGs yn gwobrwyo ail-broseswyr/allforwyr drwy ei gwneud yn bosib hawlio tunelledd uwch nag a fyddai'n gymwys fel arall. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, dylid gosod y gyfran ailgylchadwy ar ystod is yr hyn a adroddir gan ail-broseswyr/allforwyr sy'n defnyddio data gwirioneddol a SIPs, er enghraifft cyfartaledd y chwartel isaf.

3.1.10 Yn olaf, er mwyn sicrhau bod protocolau ac AAIGs yn parhau i fod yn gyfredol, rydyn ni'n cynnig eu bod yn gyfyngedig o ran amser ac yn cael eu hadolygu bob tair blynedd o leiaf. Dylai rheoleiddwyr gael y disgresiwn i roi gwybod am eu bwriad i dynnu protocol yn ôl oni bai ei fod yn cael ei ddiweddaru, gan roi o leiaf 12 mis o rybudd i'r diwydiant. Pe bai'n cael ei dynnu'n ôl, byddai angen i ail-broseswyr/allforwyr ddibynnu ar ddata gwirioneddol neu SIPs â thystiolaeth ddigonol i gyfrifo'r gyfran ailgylchadwy.

**C8. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid gosod protocolau y cytunir arnynt yn genedlaethol ac AAIGs ar ystod is yr hyn a adroddir gan ail-broseswyr ac allforwyr sydd wedi defnyddio data gwirioneddol a chynlluniau samplu ac archwilio?**

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C9. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i wneud protocolau cenedlaethol ac AAIGs yn gyfyngedig o ran amser?**

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C10. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid adolygu protocolau ac AAIGs a'u diweddaru yn ôl yr angen bob tair blynedd o leiaf?**

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C11. Ydych chi'n credu y dylai rheoleiddwyr gael disgresiwn i gwtogi'r cyfnod hwn lle bo angen?**

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

## 3.2 Canslo PRNs - Mwy o Ddiwydrwydd Dyladwy dan Arweiniad y Sector

3.2.1 Ar hyn o bryd, nid yw'r Rheoliadau'n dweud a oes gan y rheoleiddwyr y pŵer i ganslo PRNs/PERNs os ydynt wedi cael eu cyhoeddi'n amhriodol gan ail-brosesydd/allforiwr achredededig (er enghraifft, wedi'u cyhoeddi yn erbyn gwastraff nad yw'n becynwaith). Gall rheoleiddwyr ofyn i'r ail-brosesydd/allforiwr addasu ei gofnodion gwastraff yn wirfoddol os oes ganddynt y pryderon hyn, ond nid yw'r pŵer i weithredu lle mae'r ail-brosesydd/allforiwr yn gwrthod gwneud addasiadau neu wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn amlwg. Bydd hyn yn broblem os yw PRNs/PERNs eisoes wedi cael eu gwerthu i gynhyrchwyr neu gynlluniau.

3.2.2 Yn yr achosion hyn, mae'r PRNs/PERNs annilys yn aml yn aros yn y system ac yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth o ailgylchu er ei bod yn hysbys eu bod yn dwyllodrus. Mae hyn yn anghyson â bwriad y polisi i gynyddu a chefnogi ailgylchu cyfreithlon. Mae PRNs/PERNs anghyfreithlon yn arwain at orgyflenwad o dystiolaeth, prisiau is, ac o ganlyniad yn lleihau'r cymorth sydd ar gael i fusnesau cyfreithlon. Byddai canslo tystiolaeth o'r fath yn cywiro hyn drwy gynyddu'r galw am dystiolaeth gan weithredwyr cyfreithlon.

3.2.3 Rydyn ni'n cynnig diwygio'r Rheoliadau i ganiatáu i reoleiddwyr, pan fyddant yn dod i'r casgliad ar sail tebygolrwydd bod PRN/PERN wedi cael ei gyhoeddi'n amhriodol, ganslo'r PRNs/PERNs hynny. Byddai hyn yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer achosion difrifol bwriadol o dorri'r rheolau, sy'n debygol o arwain at ganslo achrediad. Byddai hyn yn cynyddu diwydrwydd dyladwy o ran dilysrwydd y PRNs/PERNs sy'n cael eu prynu, a drwy

wneud hynny'n lleihau'r risg bod cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio yn defnyddio tystiolaeth a gyhoeddwyd yn amhriodol o ailgylchu i ddangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu statudol.

3.2.4 Mae dwy ffordd o gyflawni hyn, ac mae rhinweddau ac anfanteision y naill a'r llall wedi'u hamlinellu isod.

**Dyletswydd rheoleiddwyr i ganslo PRNs/PERNs**

3.2.5 Byddai'r ddyletswydd hon golygu bod y rheoleiddiwr, ar ôl cwblhau unrhyw ymchwiliad perthnasol, yn gorfod canslo unrhyw PRNs/PERNs y mae'n barnu eu bod wedi cael eu cyhoeddi'n amhriodol ac nad ydynt wedi cael eu tynnu'n ôl yn wirfoddol gan yr ail-brosesydd/allforiwr.

3.2.6 Byddai hyn yn cymell cynlluniau cydymffurfio a chynhyrchwyr i sicrhau diwydrwydd dyladwy digonol o ran ail-broseswyr/allforwyr ac i gael PRNs/PERNs dim ond pan fydd ganddynt lefelau uchel o hyder yn ansawdd y prosesau a/neu'r gallu i wneud iawn am unrhyw wallau a allai ddigwydd. Byddai hyn yn cefnogi ail-broseswyr/allforwyr sy'n glynu wrth safonau uchel ac yn cymell eraill i wneud yr un peth.

3.2.7 Pe bai PRNs/PERNs yn cael eu canslo yn hwyr mewn blwyddyn gydymffurfio, gallai olygu nad yw cynlluniau a chynhyrchwyr yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Felly, rydyn ni'n ymgynghori ar gynigion (wedi'u hamlinellu isod yn adran 3.3) a allai liniaru'r risg hon.

**Pŵer disgresiwn i reoleiddwyr ganslo PRNs/PERNs**

3.2.8 Byddai hyn yn rhoi'r pŵer i reoleiddwyr benderfynu a ddylid canslo PRNs/PERNs ai peidio mewn amgylchiadau lle mae'r rheoleiddiwr wedi asesu bod y PRNs/PERNs wedi cael eu cyhoeddi'n amhriodol i gynhyrchydd neu gynllun.

3.2.9 Byddai hyn yn galluogi rheoleiddwyr i ystyried natur torri amodau achrediad yn ogystal ag unrhyw ddiwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd gan y cynllun cydymffurfio neu'r cynhyrchydd. O ganlyniad, gallai'r rheoleiddiwr benderfynu peidio â chanslo'r PRNs/PERNs dan sylw, neu dim ond y rhai lle mae'n credu nad oedd digon o ddiwydrwydd dyladwy wedi'i gynnal.

**C12. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i osod dyletswydd ar reoleiddwyr i ganslo PRNs/PERNs sydd, yn eu barn nhw, wedi cael eu cyhoeddi'n amhriodol?**

a. **Cytuno**
b. **Anghytuno**
c. **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C13. Os felly, a fyddech chi'n dal o blaid cyflwyno'r ddyletswydd hon pe bai angen cyflwyno mecanwaith cydymffurfio?**

a. **Byddwn**
b. **Na fyddwn**
c. **Ddim yn gwybod**

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C14. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i roi pwerau disgresiwn i'r rheoleiddwyr ganslo PRNs/PERNs sydd, yn eu barn nhw, wedi cael eu cyhoeddi'n amhriodol?**

a. **Cytuno**
b. **Anghytuno**
c. **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C15. Os felly, a fyddech chi'n dal o blaid cyflwyno'r pwerau hyn pe bai angen cyflwyno mecanwaith cydymffurfio?**

a. **Byddwn**
b. **Na fyddwn**
c. **Ddim yn gwybod**

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C16. Ydych chi'n rhag-weld unrhyw ganlyniadau neu effeithiau anfwriadol os caiff PRNs/PERNs a gyhoeddwyd yn amhriodol eu canslo?**

**Os felly, rhowch fanylion a chynnwys awgrymiadau ar gyfer lliniaru:**

**C17. Pe bai'r ddyletswydd ar reoleiddwyr i ganslo PRNs/PERNs a gyhoeddwyd yn amhriodol yn cael ei rhoi ar waith, pa gostau neu ofynion ychwanegol fyddai eich sefydliad yn disgwyl eu hwynebu? Ticiwch bob opsiwn perthnasol isod a rhowch ragor o fanylion gan egluro eich ymateb.**

a. Staffio
b. Hyfforddi
c. Ymgyfarwyddo
d. Arall (rhowch ragor o fanylion)

**Rhowch ragor o fanylion i esbonio eich ymateb:**

## 3.3 Mecanweithiau Cydymffurfio

3.3.1 Mae'r cynigion hyn yn fecanweithiau sydd â'r bwriad o helpu cynhyrchwyr a chynlluniau cydymffurfio i reoli cydymffurfedd â'u rhwymedigaethau ailgylchu mewn amgylchiadau eithriadol.

3.3.2 Cyn yr ymgynghoriad pEPR yn 2021, roedd rhai rhanddeiliaid yn galw am gyflwyno mecanwaith i ganiatáu i gynhyrchwyr a chynlluniau gyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu drwy dalu 'ffi' yn hytrach na chael PRNs/PERNs os oes prinder tystiolaeth. Cafodd y cynnig ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar ddiwygio PRN yn 2022. Er bod cefnogaeth, ni chafodd ei ddatblygu gan fod angen ei ddatblygu'n sylweddol ymhellach cyn ei fod yn addas i'w gynnwys yn y Rheoliadau.

3.3.3 Mae ymgysylltu mwy diweddar â rhanddeiliaid wedi dangos bod diddordeb parhaus mewn math o fecanwaith cydymffurfio, fel rhan o becyn integredig o ddiwygiadau, a fyddai'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd o ran cydymffurfio â rhwymedigaethau ailgylchu. Maen nhw'n credu y gallai hyn fod yn angenrheidiol o ganlyniad i dargedau ailgylchu cynyddol, anwadalrwydd mewn marchnadoedd byd-eang ar gyfer gwastraff pecynwaith, ac effaith bosib mesurau eraill sy'n cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

3.3.4 Mae'n bwysig nad yw unrhyw fecanwaith cydymffurfio yn cael ei ddefnyddio i geisio rheoli prisiau yn ystod cyfnodau o anwadalrwydd yn y farchnad na dibynnu arno pan na wneir ymdrechion rhesymol i gael PRNs/PERNs. Dim ond mewn achosion pan fydd popeth arall wedi methu y dylai mecanwaith fod yn berthnasol, wedi'i sbarduno gan amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar broses ymgeisio a chymeradwyo, nid fel opsiwn diofyn. Ni ddylai fyth fod yn haws nac yn rhatach na chael PRNs er mwyn cydymffurfio'n llawn.

3.3.5 Mae dau fath o fecanwaith cydymffurfio wedi cael eu nodi ac yn cael eu hystyried: opsiwn ffioedd, a mecanwaith "dwyn yn ôl" ar gyfer ymestyn opsiynau diwedd blwyddyn.

**Mecanweithiau Ffioedd**

3.3.6 Rydyn ni'n cynnig diwygio'r rheoliadau i ganiatáu i Weinidogion ddefnyddio mecanwaith ffioedd y gallai cynhyrchwyr a chynlluniau wneud cais amdano bob blwyddyn, i ddarparu ffordd arall o gyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu, pe na bai digon o PRNs/PERNs ar gael i wneud hynny. Byddai'n ofynnol i gynhyrchwyr a chynlluniau ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid, nodi'r rhesymeg dros eu cynnig a'i gyflwyno i Weinidogion i'w ystyried. Byddent yn gymwys i wneud cais i fod yn weithredwr y mecanwaith os yw'n debygol y bydd angen iddynt ddefnyddio'r mecanwaith (hy ddim yn gallu cyflawni eu rhwymedigaethau ailgylchu).

3.3.7 Byddai amserlen ymgeisio a phenderfynu yn cael ei nodi yn y Rheoliadau ar gyfer unrhyw gynigion. Gallai Gweinidogion wneud y penderfyniad terfynol ynghylch derbyn y cynnig a gweithredu mecanwaith ai peidio (gyda chytundeb ar draws y pedair gwlad). Dim

ond un cais am fecanwaith ar gyfer unrhyw ddeunydd penodol fyddai'n cael ei gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn benodol.

3.3.8 Yn y cais, byddai'n ofynnol i'r cynigydd amlinellu ei brofiad a phrofiad y gweithredwr (os yw'n wahanol), yr amserlen arfaethedig y byddai'r mecanwaith yn berthnasol iddi, yr holl lifau ariannol, a manylion rheoli a defnyddio'r arian. Byddai unrhyw arian sy'n deillio o'r mecanwaith yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r egwyddorion llywodraethu a nodir yn y Rheoliadau a'r canllawiau, ac a ddisgrifir yn y cais a dderbynnir.

3.3.9 Ni fyddai'r cynnig mecanwaith yn cael ei ddibynnu arno fel mater o drefn o un flwyddyn i'r llall. Dim ond drwy eithriad y byddai'n cael ei ddefnyddio. Gallai gwmpasu'r holl ddeunyddiau neu is-set o ddeunyddiau, yn dibynnu ar y rheswm (hy digwyddiad sy'n effeithio'n ddifrifol ar un sector perthnasol).

**Estyniad diwedd blwyddyn**

3.3.10 Cafodd cynigion ar gyfer estyniad i'r flwyddyn gydymffurfio hefyd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad PRN yn 2022. Byddai ymestyn y cyfnod cydymffurfio y tu hwnt i flwyddyn yn golygu defnyddio PRNs/PERNs o'r flwyddyn gydymffurfio ganlynol (blwyddyn 2) i fodloni rhwymedigaethau'r flwyddyn flaenorol (blwyddyn 1). Byddai hyn yn ceisio cydbwyso tystiolaeth rhwng dwy flynedd gydymffurfio os oes prinder tystiolaeth ar gyfer math penodol o ddeunydd yn y flwyddyn berthnasol.

3.3.11 Yr effaith fyddai ymestyn y flwyddyn gydymffurfio gyfan a'i gofynion i fodloni rhwymedigaethau. Byddai darparu Tystysgrif Cydymffurfio ar gyfer blwyddyn 1 hefyd yn symud i nes ymlaen ym mlwyddyn 2. Er y gallai hyn leihau'r pwysau ar ddiwedd blwyddyn 1 a chynyddu hylifedd, gallai hefyd effeithio ar argaeledd tystiolaeth ym mlwyddyn 2 a dibynnu ar gasglu ac ailbrosesu ychwanegol ym mlwyddyn 2 i sicrhau nad yw'r prinder yn digwydd eto.

3.3.12 Ni fyddai cyfyngiad ar allu gweithredwyr i wneud ceisiadau dros fwy nag un flwyddyn os credir bod angen y mecanwaith, ond byddai pob cais yn cael ei asesu yng nghyd-destun y flwyddyn gydymffurfio benodol honno. Gallai hyn fod yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer y Mecanwaith Ffioedd, gyda gofyniad i wneud cais i Weinidogion am gytundeb i'w ddefnyddio. Byddai modd monitro data ailgylchu a gofnodwyd i weld a yw'r farchnad ar y trywydd iawn i alluogi cydymffurfedd neu a allai fod angen estyniad i'r cyfnod cydymffurfio.

3.3.13 Byddai modd rhoi'r mesur hwn ar waith yn lle neu ochr yn ochr â mecanwaith ffioedd, gan roi mwy o hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn i gynnig y mesur mwyaf addas ar gyfer y sefyllfa.

**C18. Pa rai o'r dulliau cydymffurfio arfaethedig fyddech chi o'u plaid?**

a. Mecanwaith ffioedd
b. Mecanwaith estyniad blwyddyn
c. Dim un
d. Y ddau

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C19. Pe bai un mecanwaith cydymffurfio yn unig yn cael ei roi ar waith, pa un fyddai orau gennych chi?**

a. Mecanwaith ffioedd
b. Mecanwaith estyniad blwyddyn
c. Ddim yn ffafrio'r naill na'r llall

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C20. Pa feini prawf neu amodau penodol ddylai fod yn berthnasol ar gyfer sbarduno'r defnydd o'r naill fecanwaith neu'r llall? Rhowch y rheswm dros eich ateb.**

**C21. Pa feini prawf neu amodau penodol ddylai fod yn berthnasol i weithredwr y mecanwaith cydymffurfio? Rhowch y rheswm dros eich ateb.**

**C22. Pe bai'r mecanwaith ffioedd cydymffurfio yn cael ei roi ar waith, pa gostau neu ofynion ychwanegol fyddai eich sefydliad yn disgwyl eu hwynebu? Ticiwch bob opsiwn perthnasol isod.**

a. Staffio
b. Hyfforddi
c. Ymgyfarwyddo
d. Arall (rhowch ragor o fanylion)

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**C23. Pe bai'r mecanwaith ffioedd cydymffurfio yn cael ei sbarduno, pa amcangyfrif o dunelledd fyddech chi'n disgwyl i'r mecanwaith ei gwmpasu (y diffyg tystiolaeth disgwyliedig)?**

**C24. Pe bai'r estyniad diwedd blwyddyn yn cael ei roi ar waith, pa gostau neu ofynion ychwanegol fyddai eich sefydliad yn disgwyl eu hwynebu? Ticiwch bob opsiwn perthnasol isod.**

a. Staffio
b. Hyfforddi
c. Ymgyfarwyddo

d. Arall (rhowch ragor o fanylion)

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

## 3.4 Tryloywder

3.4.1 Yn hanesyddol, mae rhai rhanddeiliaid wedi beirniadu'r system PRN am ddiffyg tryloywder. Mae'r rhesymau dros bryder yn amrywio ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae'r themâu cyffredin yn cynnwys:

i. Tryloywder ar lefel system i roi sicrwydd i bawb sy'n cymryd rhan yn y system ei bod yn rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, ac yn cyflawni yn erbyn canlyniadau'r cynllun, o ran refeniw PRN
ii. Tryloywder o ran data cyflenwad a galw PRN a PERN i fynd i'r afael ag anghymesuredd gwybodaeth rhwng prynwyr a gwerthwyr yn y farchnad PRN, gan leihau anwadalrwydd gormodol mewn prisiau PRN a welir drwy gydol y flwyddyn
iii. Tryloywder o ran ail-broseswyr ac allforwyr unigol i atal a chanfod twyll a gwallau

3.4.2 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud rhagor o waith ar y ddau faes cyntaf ddechrau 2026 gan nad yw'r mesurau hyn yn gofyn am ymgynghori ffurfiol neu ddiwygiadau rheoleiddiol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y trydydd mesur yn unig.

3.4.3 Yn ystod hydref 2025, adolygodd gweithgor y diwydiant fesurau tryloywder posib a gynhyrchwyd gan reoleiddwyr, a allai helpu i fynd i'r afael â thwyll a gwallau.

3.4.4 Ers nodi'r opsiynau hyn, mae rhywfaint o'r data y gofynnir amdano bellach yn cael ei gyhoeddi fel mater o drefn gan reoleiddwyr (er enghraifft, Adroddiad Monitro Cydymffurfedd ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr: [Compliance monitoring and enforcement activity 2024 - GOV.UK)](Compliance monitoring and enforcement activity 2024 - GOV.UK).

3.4.5 Roedd cytundeb cyffredinol y dylid ystyried tri o'r mesurau ymhellach yn yr ymgynghoriad hwn, gyda'r gweddill yn cael eu hystyried fel rhan o'r Fenter Canfod Twyll. Sef:

i. Cyhoeddi pan fydd achrediadau ail-broseswyr/allforwyr yn cael eu canslo a'u hatal
ii. Cofrestru ac adroddiadau data ar gyfer llwyfannau masnachu
iii. Cofrestru ac adroddiadau data ar gyfer broceriaid

**Cyhoeddi pan fydd achrediadau ail-broseswyr ac allforwyr yn cael eu canslo a'u hatal**

3.4.6 Rydyn ni'n cynnig cyhoeddi gwybodaeth atodol am atal neu ganslo achrediadau. Mae'r Rheoleiddwyr eisoes yn cyhoeddi hysbysiad am atal neu ganslo achrediadau y maen nhw'n eu gorfodi fel rhan o'r Gofrestr Gyhoeddus (y rhestr o'r holl fusnesau

cofrestredig ac achrededig). Fodd bynnag, nid yw'r hysbysiadau hyn yn cysylltu â'r gofrestr gyhoeddus ar hyn o bryd (mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn yn y gwasanaeth digidol newydd) ac felly nid ydynt yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar y gofrestr gyhoeddus am y rheswm dros weithredu, gan gynnwys difrifoldeb y toriad.

3.4.7 Gallai gwybodaeth ychwanegol o'r fath fod yn ddefnyddiol i gynlluniau cydymffurfio a chynhyrchwyr wrth gynnal diwydrwydd dyladwy o ran caffael PRNs/PERNs, a chaniatáu i brynwyr nodi patrymau ymddygiad i lywio penderfyniadau prynu.

3.4.8 Ar gyfer gweithredwyr cyfreithlon, y gallai eu hachrediadau gael eu hatal dros dro am doriadau cymharol fach, gallai fod yn ddefnyddiol i reoleiddwyr ryddhau manylion am ddifrifoldeb y toriad er mwyn lleihau niwed i enw da drwy ddyfalu.

**Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i ddarparu rhagor o wybodaeth am natur a/neu ddifrifoldeb y toriad?**

a. Cytuno
b. Anghytuno
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

**Cofrestru ac adroddiadau data ar gyfer broceriaid a llwyfannau masnachu**

3.4.9 I lawer o gofrestreion uniongyrchol, broceriaid a llwyfannau masnachu yw'r prif lwybr i gael PRNs. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae hyd at 20-25% o'r holl PRNs/PERNs yn cael eu caffael drwy'r llwyfan t2e. Er bod cynhyrchwyr, cynlluniau cydymffurfio ac ail-broseswyr/allforwyr yn ddarostyngedig i rwymedigaethau cofrestru ac adrodd llym, mae broceriaid yn gweithredu heb oruchwyliaeth reoleiddiol gyfatebol ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod y system yn agored i aneffeithlonrwydd a thwyll.

3.4.10 Mae'r brocer/llwyfan yn gweithredu fel 'cyfatebwr' (neu 'match-maker'), gan na all fod yn berchen yn gyfreithiol ar y PRN/PERN, felly nid oes unrhyw 'fasnachu' (fel cyfranddaliadau). Fodd bynnag, mae'r prynu a'r gwerthu yn digwydd yn 'ddall', sy'n golygu nad yw'r partïon yn gwybod gan bwy maen nhw'n prynu neu i bwy maen nhw'n gwerthu hyd nes y cytunir ar y trafodiad a bod taliad yn ddyledus (er bod y llwyfan ei hun yn cofnodi pob parti). Mae hyn wedi tynnu sylw at y gwendidau posib canlynol:

i. Mae diffyg atebolrwydd yn galluogi arferion anfoesegol a chamadrodd
ii. Nid yw trafodiadau cyfryngwr yn cael eu cofnodi, gan leihau gwelededd i reoleiddwyr
iii. Gall diffyg tryloywder arwain at chwyddiant prisiau artiffisial a chronni PRNs/PERNs

3.4.11 Mae cynlluniau cydymffurfio wedi cynnig dull gwirfoddol, lle mae broceriaid a llwyfannau'n ymrwymo i gydymffurfio â chod ymddygiad y cytunir arno ac yn darparu data

penodol, yn hytrach na dull gorfodol. Gallai hyn greu cam terfynol mewn masnach, pan fydd y gwerthwr yn cael ei ddatgelu ychydig cyn cwblhau cytundeb, gan ganiatáu i'r prynwr dynnu'n ôl o'r cytundeb, ond gyda rhywfaint o gosb ariannol (ee parhau i fod yn atebol am y comisiwn neu'r ffi a godir gan y llwyfan neu'r brocer).

3.4.12 Fodd bynnag, mae eraill wedi cynnig dull deddfwriaethol, lle mae pob brocer a llwyfan masnachu yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau. Byddai hyn yn effeithio ar nifer cymharol fach o fusnesau (10-15). Byddai modd cyfuno'r oruchwyliaeth well hon â gweithio'n agosach gyda Chyllid a Thollau EF sydd â diddordeb gweithredol mewn broceriaid PRN gan eu bod yn agored i risgiau treth (gan fod PRNs/PERNs yn ddarostyngedig i TAW). Gyda'i gilydd, mae hyn yn gyfle sylweddol i ddiogelu hygrededd y fframwaith tystiolaeth ailgylchu, gwella atebolrwydd ariannol, cryfhau hyder y farchnad ac, wrth wneud hynny, sbarduno twf economaidd drwy hybu busnes cyfreithlon.

3.4.13 Mae hyn yn cysylltu â'r cynigion ar gyfer canslo PRNs. Os oes rhaid i gynhyrchwyr a chynlluniau gynnal mwy o wiriadau wrth gael tystiolaeth, bydd angen iddynt gael gwell golwg o ffynhonnell y dystiolaeth cyn ymrwymo'n derfynol i unrhyw bryniant. Gallai cyflwyno gofyniad cofrestru gorfodol gyda rhwymedigaethau adrodd cadarn ar gyfer masnachwyr a broceriaid PRN helpu i gynyddu'r tebygolrwydd o ganfod rheoleiddiol, gan greu effaith ataliol gryf yn erbyn gweithredwyr gwael posib yn y system drwy wella gwelededd yn y trefniadau masnachu ac elwa gweithredwyr cyfreithlon.

3.4.14 Ar hyn o bryd, nid yw dangosyddion twyll – fel gwerthu PRNs am lawer is na'u gwerth ar y farchnad neu wedi'u cyrchu'n gyfan gwbl gan weithredwyr gwastraff risg uchel – yn cael eu monitro'n systematig mewn perthynas â broceriaid. Mae'r dull hwn yn lleihau'r cyfleoedd ar gyfer camymddwyn drwy gynyddu tryloywder a byddai'n cyd-fynd â marchnadoedd eraill sy'n cael eu rheoleiddio, lle mae goruchwyliaeth brocer yn helpu i atal cam-drin systemig.

**Darpariaethau Arfaethedig**

3.4.15 Er mwyn cyflawni'r cynnig hwn, byddai'r Rheoliadau'n cael eu diwygio i wneud y canlynol yn ofynnol -

1. Cofrestru Gorfodol – byddai angen i holl froceriaid PRNs/PERNs gofrestru'n flynyddol gyda'r rheoleiddiwr perthnasol. Byddai'n rhaid darparu'r canlynol fel gwybodaeth gofrestru:

   i. Manylion endid cyfreithiol
   ii. Unigolion cyfrifol
   iii. Manylion cyswllt a chyfeiriad archwilio
   iv. Manylion safonau gweithredu

2. Talu ffi gofrestru – byddai modd rhannu'r strwythur ffioedd yn haenau ar sail tunelledd sy'n cael ei fasnachu, gan sicrhau nad yw broceriaid llai yn cael eu llethu'n anghymesur tra bo endidau mwy yn cyfrannu mwy i adlewyrchu eu heffaith ar y farchnad – yn debyg i'r band sy'n berthnasol i ail-broseswyr/allforwyr achrededig.

3.4.16 Er mwyn sicrhau bod y rhwymedigaethau arfaethedig yn cael eu goruchwylio a'u gorfodi'n effeithiol, byddai'r ffi flynyddol yn cael ei defnyddio i ariannu gweithgareddau rheoleiddio, gan gynnwys casglu data, adrodd a dilysu, gwyliadwriaeth o'r farchnad i gynnal uniondeb y system PRN, a chyflawni'r swyddogaeth ddigidol. Byddai gan froceriaid rwymedigaeth adrodd data, gan gyflwyno adroddiadau chwarterol drwy system ddata'r rheoleiddiwr. Gallai'r data angenrheidiol gynnwys y canlynol:

i. Nifer a math y PRNs/PERNs sy'n cael eu masnachu
ii. Prisiau trafodiadau
iii. Manylion cyd-barti (cynhyrchydd, cynllun cydymffurfio, ail-brosesydd neu allforiwr).

3.4.17 Byddai mynnu bod broceriaid yn adrodd yn rhoi amlygrwydd ar lefel trafodiadau o'r holl gamau cyfryngol i'r rheoleiddwyr, gan roi darlun iddynt o'r broses gyfan. Mae hyn yn cynyddu'r gallu i olrhain, gellir canfod twyll yn well (drwy ddadansoddi ymddygiad y farchnad) ac mae gwell goruchwyliaeth a thryloywder.

3.4.18 Byddai'r darpariaethau'n cyflwyno dyletswyddau newydd i'r Rheoleiddiwr fonitro a gorfodi'r gofynion newydd hyn. Byddai hyn yn golygu cyflwyno troseddau newydd a chosbau sifil am achosion perthnasol o dorri neu beidio â chydymffurfio:

i. Methu cofrestru
ii. Peidio â chydymffurfio â rhwymedigaethau adrodd
iii. Darparu data anwir neu gamarweiniol
iv. Peidio â chydymffurfio ag amodau cofrestru brocer

3.4.19 Byddai pob brocer cofrestredig yn cael ei restru ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ac sy'n cael ei chynnal gan y rheoleiddwyr. Byddai'r mesur hwn yn symleiddio'r broses o gaffael tystiolaeth ar gyfer cynhyrchwyr, byddai eu cynnwys ar gofrestr gyhoeddus yn ffynhonnell o wybodaeth wedi'i dilysu gan froceriaid, gan leihau'r risg o ymgysylltu â chyfryngwyr anghofrestredig neu dwyllodrus. Byddai'n cynyddu hyder y farchnad drwy roi sicrwydd bod trafodion yn cael eu cynnal gydag endidau sy'n destun goruchwyliaeth reoleiddiol, a byddai'n cefnogi gofynion diwydrwydd dyladwy.

**C26. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i fynnu bod broceriaid a llwyfannau masnachu yn cofrestru?**

a. Cytuno
b. Anghytuno

c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

**Rhowch y rheswm dros eich ateb:**

# 4. Ymgynghori yn y Dyfodol ar Ddiwygio

## 4.1 Opsiynau Posib a Chynigion ar gyfer Ymgynghori Pellach

4.1.1 Rydyn ni'n bwriadu cynnal ail ymgynghoriad ar y system PRN/rhwymedigaethau ailgylchu. Bydd hyn yn cynnwys y ddau fesur a nodir isod a bydd hefyd yn ystyried yn ehangach a oes cyfleoedd i ddiwygio neu symleiddio'r system PRN/PERN yn ehangach.

4.1.2 Mae'r sector wedi tynnu sylw at y ddau fesur canlynol fel ysgogwyr allweddol tebygol i gefnogi mwy o ailbrosesu plastig a gwydr yn ddomestig.

i. Gorfod cyrraedd safonau sylfaenol ar gyfer didoli deunyddiau ar gyfer gwastraff pecynwaith er mwyn i'r deunydd fod yn gymwys ar gyfer PRNs/PERNs, i helpu i sicrhau mwy o degwch i ail-broseswyr deunyddiau domestig.
ii. Targedau ailbrosesu domestig sy'n benodol i ddeunyddiau a fyddai'n cynyddu dros amser gan roi sicrwydd i fusnesau fuddsoddi mewn cyfleusterau ailbrosesu newydd yn y DU.

4.1.3 Felly, rydyn ni'n gofyn am wybodaeth am gostau a manteision tebygol cyflwyno'r naill fesur neu'r llall ar gyfer plastig a gwydr, pa un fyddai orau ar gyfer plastig ac ar gyfer gwydr yn eich barn chi, ac a oes achos cryf dros eu rhoi ar waith ar gyfer deunyddiau eraill hefyd.

# 5. Atodiad A – Sefydliadau oedd wedi ymwneud â'r Grŵp Sbrint

Dyma'r grwpiau a oedd wedi'u cynrychioli yn y trafodaethau:

- Ffederasiwn Plastigau Prydain (BPF)
- British Glass (GB)
- Cydffederasiwn y Diwydiannau Papur (CPI)
- Alupro
- Metal Packaging Manufacturer Association (MPMA)
- Recoup
- The Recycling Association (TRA)
- Environmental Services Association (ESA)
- Valpak (Aelod o'r PSF)
- Ecosurety (Aelod o'r PSF)
- WastePack (Aelod o'r PSF)
- Packaging Scheme Forum (PSF)*
- Wood Recyclers' Association (WRA)*[6]

[6] * heb eu cynnwys ym mhob cyfarfod